Ysgol Hamadryad

Angor cadarn cyn hwylio'r don

Prosbectws 2023 - 24

Cynnwys

Gwybodaeth Gyffredinol	3
Gweledigaeth	4
Hanes yr Ysgol	4
Datganiad Cenhadaeth	5
Nodau ac Amcanion yr Ysgol	5
Oriau'r Ysgol	6
Trefn Ddyddiol	6
Dyddiadau'r Tymor	7
Prydlondeb a Phresenoldeb	7
Gwyliau	7
Gwisg Ysgol	8
Byrbryd	9
Cinio Ysgol	9
Pecyn Bwyd	10
Y Cwricwlwm	10
Dysgu ac Addysgu	11
Llais y Plentyn	11
Dysgu o Adref	11
Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb	12
Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg	12
Gwasanaethau Cydaddoli	12
Anghenion Dysgu Ychwanegol	13
Gweithio Mewn Partneriaeth	13
Cytundeb Cartref / Ysgol	14
Adrodd ar Gynnydd Disgyblion	14
Ymddygiad Cadarnhaol	14
Cwynion	15
Cyfleoedd Cyfartal	15
Mynediad i'r Ysgol	16
Mynediad i Wybodaeth	16
Cyfraniad Ariannol	16
Iechyd a Diogelwch	16
Moddion a Damweiniau	17
Teithio'n Llesol	17
Diogelu Plant	17

Ysgol Hamadryad
Heol Hamadryad
Tre-biwt
Caerdydd
CF10 5UY

Ffôn: 029 2047 1173

E-bost: Ysgol.Hamadryad@caerdydd.gov.uk

Trydar:@YsgolHamadryad

Gwefan:ysgolhamadryad.cymru

Pennaeth: Mrs Ceri Morgan

Cadeirydd y Corff Llywodraethu: Dr Huw Williams

Math o Ysgol: Ysgol Gynradd Benodedig Gymraeg

Trefniant yr Ysgol
Nifer y disgyblion:
Uchafswm o 96 (rhan amser) yn y Feithrin
Uchafswm o 60 yn y Dosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1, 2, 3, 4 a 5
Uchafswm o 30 ym mlwyddyn 6 (Medi 2024)

Adran Meithrin i Flwyddyn 2:
Meithrin, Dosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Adran Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6:
Blwyddyn 3, 4, 5 a 6

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda chlwstwr Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.

Mae rhestr o'r llywodraethwyr a'u swyddi a threfniadau staffio am y flwyddyn academaidd hon ar gael o swyddfa'r ysgol.

Croeso i Ysgol Hamadryad

Angor cadarn cyn hwylio'r don

GWELEDIGAETH

Ein bwriad yw rhoi profiad hapus i'ch plentyn ar ddechrau ei addysg statudol. Gobeithiwn y bydd y prosbectws hwn yn eich helpu i baratoi eich plentyn ar gyfer ei amser yn yr ysgol.

HANES YR YSGOL

Ym mis Medi 2016, agorwyd drysau Ysgol Hamadryad gydag un dosbarth derbyn o un deg saith o blant mewn lleoliad dros dro y drws nesaf i Ysgol Gynradd Ninian Park, cyn symud i adeilad newydd sbon ar safle Hamadryad yn Nhre-biwt yn nhymor y Gwanwyn 2019.

Yn adeilad Ysgol Gynradd Ninian Park yr agorwyd ysgol Gymraeg gyntaf Caerdydd yn 1949, ac ar y safle hwn hefyd yr oedd Ysgol Gymraeg Tan-yr-Eos rhwng 2006 a 2013. Yn sgil cau Tan-yr-Eos fe ddechreuwyd ymgyrch gan bobl leol er mwyn sicrhau bod y galw am addysg Gymraeg yn ardaloedd Tre-biwt a Grangetown yn cael ei ddiwallu. Bu'r ymgyrch yn llwyddiant, a chafodd yr adeilad newydd ei ariannu gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru (Cynllun Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain). Mae'n destun balchder a llawenydd mawr fod yr ysgol wedi ei sefydlu a bod yr athrawon a'r llywodraethwyr yn gwireddu'r freuddwyd o ysgol flaengar a chroesawgar ar gyfer holl blant yr ardal.

DATGANIAD CENHADAETH

Croeso cynnes Cymraeg i ysgol flaengar a chynaliadwy sydd wedi'i gwreiddio yn y gymuned. Mae ward Tre-biwt yn gartref i rai o sefydliadau pwysicaf Cymru a'r iaith Gymraeg, gan gynnwys y Senedd, Canolfan y Mileniwm ac Urdd Gobaith Cymru. Mae'r iaith i'w chlywed yn feunyddiol yma, ond Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad yw'r ysgol cyfrwng Cymraeg gyntaf i'w lleoli yn yr ardal. Mae wardiau Tre-biwt, Grangetown a'r ardaloedd cyfagos yn nodedig am

eu cymeriad amlethnig ac amlieithog ac un o amcanion Ysgol Hamadryad yw adlewyrchu amrywiaeth y gwahanol gymunedau hyn.

Mae enw'r ysgol wedi ei wreiddio'n ddwfn yn hanes yr ardal. Llong oedd yr Hamadryad wreiddiol a rhwng 1866 a 1905 bu wrth angor nid nepell o safle'r ysgol, yn gwasanaethu fel ysbyty ar gyfer morwyr o Gymru a phedwar ban byd. Yn 1905 agorwyd Ysbyty Hamadryad ar y tir sych gerllaw ac erbyn heddiw Parc Hamadryad yw enw'r parc cyhoeddus ar lan afon Taf a fydd yn darparu caeau chwarae'r ysgol. Daw'r enw Hamadryad o chwedloniaeth Roeg—math o nymff oedd yr *hamadryad* y credid ei bod yn gwarchod coed. Mae hanes enw'r ysgol felly yn cyfleu rhai o'i gwerthoedd mwyaf sylfaenol: pwysigrwydd gofalu am bobl a'r amgylchedd fel ei gilydd a pharch at wahanol ddiwylliannau a'u hetifeddiaeth. Mae'r iaith Gymraeg yn cydgysylltu'r cyfan. Nod yr ysgol yw creu cymuned ddysgu hapus, uchelgeisiol a chynhwysol a fydd yn rhan greiddiol o'r ardal o'i chwmpas.

NODAU AC AMCANION YR YSGOL

- Creu awyrgylch groesawgar a chadarn lle mae'r plant, y staff, y rhieni a'r gwarcheidwaid yn teimlo'n hyderus ac yn frwdfrydig.
- Sicrhau bod pob plentyn yn teimlo ei fod yn cael ei gynnwys ym mywyd yr ysgol ac yn cael ei werthfawrogi a'i barchu beth bynnag bo ei sefyllfa ran gallu, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, crefydd, cefndir teuluol, diwylliant ac iaith y cartref.
- Annog pob plentyn i wneud ei 'orau glas', gan sicrhau bod yr addysgu yn heriol er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cyrraedd ei lawn botensial.
- Magu sgiliau, dealltwriaeth a hunanhyder pob plentyn.
- Rhoi amser i'r plant drafod eu dysgu â phlant eraill ac oedolion.
- Darparu cyfleoedd dysgu sy'n meithrin creadigrwydd, brwdfrydedd a chwilfrydedd.
- Darparu profiadau dysgu sy'n meithrin hunanfalchder ac yn helpu pob plentyn i ddatblygu cydberthnasau cadarnhaol ag eraill o fewn yr ysgol a'r gymuned ehangach.
- Helpu pob plentyn i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dibynadwy, annibynnol a chadarnhaol.

Ein nod yw sicrhau bod pob plentyn yn unigolyn hyderus wrth adael yr ysgol; yn sicr ohono'i hunan ac yn dangos parch a chonsyrn at eraill; ac â'r gallu i greu a chynnal perthynas ag oedolion a phlant o bob cefndir.

ORIAU'R YSGOL

Clwb Brecwast: 8:00yb-8:30am

Dosbarth Meithrin:
Sesiwn bore: 8:45am-11:15am
Sesiwn prynhawn: 12:30pm-3:00pm

Dosbarthiadau Derbyn i Flwyddyn 6: 8:45am –3:00pm

Bydd gatiau'r ysgol yn agor am 8.30am a'r plant yn mynd yn syth i'w dosbarthiadau er mwyn bod yn barod i ddysgu erbyn 8:45am. Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod eich plentyn wedi cyrraedd y safle erbyn 8:40yb. Gall staff yr ysgol gymryd cyfrifoldeb am y disgyblion o 8:30am tan 3:10pm.

TREFN DDYDDIOL ENGHREIFFTIOL

Derbyn, Blwyddyn 1 a 2		Blwyddyn 3 - 6	
08:45 08:55	Cofrestr	08:45 08:55	Cofrestr
08:55 10:10	Sesiwn Addysgu 1	08:55 10:10	Sesiwn Addysgu 1
10:10 10:30	Amser Chwarae	10:10 10:30	Amser Chwarae
10:30 10:45	Byrbryd	10:30 12:00	Sesiwn Addysgu 2
10:45 12:00	Sesiwn Addysgu 2	12:00 13:00	Cinio
12:00 13:00	Cinio	13:00 14:30	Sesiwn Addysgu 3 a 4
13:00 14:15	Sesiwn Addysgu 3	14:30 15:00	Gwasanaeth
14:15 14:30	Amser Chwarae		
14:30 15:00	Gwasanaeth		

DYDDIADAU'R TYMOR 2024/2025

Tymor	Dechrau	Hanner Tymor		Diwedd
Yr Hydref	02/09/2024	28/10/2024	1/11/2024	20/12/2024
Y Gwanwyn	06/01/2025	24/02/2025	28/02/2025	11/04/2025
Yr Haf	28/04/2025	26/05/2025	30/05/2025	21/07/2025

Diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd (ni fydd ysgol i'r plant)

Dydd Llun 2il Medi 2024

Bydd 5 diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd ychwnaegol yn ystod y flwyddyn gyda'r dyddiadau i'w cadarnhau. Cyhoeddir y dyddiadau ar wefan yr ysgol.

Dydd Llun, 5ed Mai 2025 – Gŵyl y Banc Calan Mai

PRYDLONDEB A PHRESENOLDEB

Mae mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn dyngedfennol os yw'r plant am elwa ar bob cyfle y mae'r ysgol yn ei gynnig. Byddwn yn monitro prydlondeb a phresenoldeb yn ofalus. Rhaid i bawb sy'n cyrraedd yn hwyr mewngofnodi ar y system electronig (y tu allan i'r swyddfa) gan nodi'r rheswm.

Mae caniatâd i blentyn fod yn absennol am y rhesymau canlynol:

- salwch, triniaeth feddygol neu ddeintyddol
- gwyliau crefyddol
- argyfwng teuluol

Os na fydd disgybl yn gallu mynychu'r ysgol am resymau dilys, dylai rieni neu warcheidwaid ffonio'r ysgol cyn 8:45yb, gan nodi rheswm penodol dros yr absenoldeb. Pan fydd y disgybl yn dychwelyd i'r ysgol gofynnwn am nodyn o esboniad am yr absenoldeb ar ffurf e-bost. Gofynnwn am hyn yn ychwanegol at yr alwad ffôn. Rhaid pwysleisio mai dim ond am y rhesymau dilys a nodir uchod y gallwn gofnodi marc absenoldeb gyda chaniatâd. Bydd unrhyw reswm arall yn derbyn marc absenoldeb heb ganiatâd. Os bydd plentyn yn derbyn 10 marc absenoldeb heb ganiatâd (sy'n cyfateb i 5 diwrnod ysgol), mae'n bosibl y bydd rhieni / gwarcheidwaid yn derbyn Hysbysiad Cosb Benodedig.

GWYLIAU

Ni roddir caniatâd i ddisgyblion fod yn absennol o'r ysgol i fynd ar wyliau.

Bydd unrhyw gyfnod o absenoldeb, ar wahân i salwch, gwyliau crefyddol neu argyfwng teuluol, yn cael ei gyfrif fel absenoldeb heb ganiatâd.

GWISG YSGOL

Er mwyn teimlo'n rhan o gymuned yr ysgol bydd disgwyl i bob disgybl (yn cynnwys plant y Feithrin) wisgo gwisg swyddogol yr ysgol yn ddyddiol. Siop YC Sports yw cyflenwyr swyddogol y wisg ysgol YC Sports, 156 Cowbridge Road East, Caerdydd, CF11 9DU. 029 2022 0246. Mae detholiad eang o ddillad ail-law hefyd ar gael yn yr ysgol am gyfraniad bychan.

Gaeaf
Siwmperi: glas (yn dangos bathodyn yr ysgol*)
Crysau polo: gwyrddlas (yn dangos bathodyn yr ysgol*)
Sgert/trowsus: llwyd
Esgidiau: duon (caniateir gwisgo esgidiau hyfforddi tywyll – dim lliwiau llachar)
Sanau: du/llwyd

Haf
Siwmperi: glas (yn dangos bathodyn yr ysgol*)
Crysau polo: gwyrddlas (yn dangos bathodyn yr ysgol*)
Ffrog las a gwyn (streipiog neu siec)
Trowsus byr: llwyd
Esgidiau neu sandalau call: du (caniateir gwisgo esgidiau hyfforddi tywyll – dim lliwiau llachar)
Sanau: gwyn/du/llwyd

* Gall ddisgyblion wisgo siwmper, gardigan neu grys polo heb fathodyn os ydy'r eitem hwnnw yn **blaen** (heb logos) ac yn yr un lliw â gwisg arferol y wisg ysgol.

Gwisg Addysg Gorfforol
Gofynnwn i'ch plentyn fynychu ysgol ar ddyddiau eu sesiynau Addysg Gorfforol yn eu gwisg Addysg Gorfforol, sef

- Crys-T eu llys**
- Siwmper / cardigan: glas (yn dangos bathodyn yr ysgol*)
- Siorts du / joggers du / legins du
- Esgidau hyfforddi
- Siwmper neu gardigan ysgol. Ni chaniateir unrhyw hwdis, crysau na siwmperi eraill.

** Cantatier hefyd grysau-T **plaen** (heb logo) yn lliw'r llys neu grys-T gwyn plaen.

Mae'r crysau-t Addysg Gorfforol ar werth yn YC Sports. Os nad ydych eto'n gywbod ym mha lys mae eich plentyn, peidiwch â phrynu crys-T nes i chi dderbyn llythyr gyda'r manylion.
Cynrychioli'r Ysgol

Lle bo plant yn cynrychioli'r ysgol, byddwn fel arfer yn gofyn i blant wisgo gwisg swyddogol yr ysgol, gan gynnwys siwmper/cardigan a chrys polo swyddogol yr ysgol. Bydd disgwyliadau'n cael eu hegluro ymlaen llaw.

Cyffredinol
Byddwn yn annog eich plentyn i fod yn brysur iawn yn coginio, yn peintio a gweithio gyda chlai a glud, a garddio. Bydd eich plentyn yn gwisgo ffedogau addas ar gyfer y gwahanol weithgareddau. Er hynny mae'n anochel yn anffodus y bydd eu dillad yn trochi o bryd i'w gilydd a gofynnwn yn garedig ichi dderbyn hynny. Byddwn yn annog y plant i chwarae y tu allan ymhob tywydd, gan gynnwys gwynt, glaw ac eira. **Does dim y fath beth â thywydd anaddas dim ond dillad anaddas.**

Cofiwch roi enw eich plentyn ar bob dilledyn.

Gofynnwn i bob plentyn ddod i'r ysgol yn gwisgo esgidiau cadarn. Ni chaniateir esgidiau 'slip-on', 'fflip fflops', clocsiau, esgidiau â llawer o gareiau/ lasys i'w hagor, esgidiau â gwadnau pren neu esgidiau â sodlau uchel. Gallant fod yn beryglus ac felly maent yn anaddas ar gyfer yr ysgol.

Gall disgyblion wisgo oriawr i'r ysgol os ydynt yn dymuno.

Os oes gan ddisgybl dyllau yn ei ch/glustiau (neu ar unrhyw fan arall o'r corff) rhaid sicrhau taw dim ond stydiau sy'n cael eu gwisgo i'r ysgol. Rhaid tynnu'r stydiau cyn cymryd rhan yn y gwersi addysg gorfforol. Nid oes hawl gan unrhyw athrawes/athro i dynnu nac ailosod stydiau, felly bydd disgwyl i'r disgyblion allu gwneud hynny'n annibynnol. **Ni chaniateir gwisgo gemwaith arall o unrhyw fath.**

Er mwyn diogelwch, taclusrwydd a glendid (ac osgoi dal llau pen) byddwn yn annog pob disgybl sydd â gwallt hir i'w glymu'n ôl.

BYRBRYD

Adran Meithrin i Flwyddyn 2: Mae amser byrbryd yn achlysur addysgiadol a phleserus. Gofynnwn yn garedig ichi anfon darn o ffrwyth neu lysieuyn (**nid grawnwin na chnau**) a photelaid o ddŵr i'r ysgol gyda'ch plentyn yn ddyddiol. Gofynnwn ichi labelu ffrwyth a photel eich plentyn.

Adran Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6: Gofynnwn yn garedig ichi anfon darn o ffrwyth neu lysieuyn (**nid grawnwin na chnau**) a photelaid o ddŵr i'r ysgol gyda'ch plentyn yn ddyddiol. Gofynnwn ichi labelu ffrwyth a photel eich plentyn.

Ni chaniateir unrhyw fyrbryd yn yr ysgol heblaw am ffrwythau a llysiau. **Dŵr yn unig** a chaniateir i'w yfed (ni chaniateir sudd na diod ffrwyth arall).

CINIO YSGOL

Bydd yr ysgol yn darparu cinio'n ddyddiol, gan gynnwys opsiwn llysieuol. Mae'r fwydlen wedi ei pharatoi gan ddietegwyr y Sir. Mae'r ciniawau yn flasus, yn ddigonol ac yn llesol. **Pris y cinio yw £2.60 y dydd (£13.00 yr wythnos).** Mae prydau ysgol am ddim i bob plentyn o'r Derbyn at Flwyddyn 3 ar hyn o bryd. Rhaid dewis pob pryd bwyd (a thalu lle bo'n bridol) ymlaen llaw trwy system Parent Pay.

PECYN BWYD

Os dymunwch anfon bwyd cinio gyda'ch plentyn gofynnwn yn garedig ichi gefnogi polisi bwyta'n iach yr ysgol trwy ddarparu bocs bwyd iach a chytbwys a pheidio â chynnwys siocled, bisgedi, losin na chreision yn y bocs.

Y CWRICWLWM

Mae cwricwlwm unigryw Ysgol Hamadryad wedi'i lunio ar gyfer ein plant gan ein hathrawon. Drwy ymgysylltu'n agos â'n rhieni â'n llywodraethwyr a chasglu barn pob plentyn, mae ein staff wedi adeiladu ar eu harbenigeddau i greu cwricwlwm eang a chytbwys sydd yn darparu **'angor cadarn cyn hwylio'r don'** i bob plentyn.

Cwricwlwm Byw
Drwy fonitro a gwerthuso parhaus, a chan wrando'n gyson ar staff, dysgwyr, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned, byddwn yn adolygu ac yn addasu ein cwricwlwm yn rheolaidd. Bydd hyn sicrhau bod ein cwricwlwm yn gynhwysol, yn berthnasol, yn ymateb i anghenion ein plant a'n cymunedau ac yn parhau i gynnig profiadau cyfoethog a chofiadwy i'n plant.

Sut rydym yn cyflawni hyn?
Mae'r Pedwar Diben yn sail i bob agwedd o'n cwricwlwm. Rydym yn darparu profiadau cyfoethog a chofiadwy ac yn adeiladu ar sgiliau a gwybodaeth ein plant er mwyn eu cefnogi i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, yn gyfranwyr mentrus, creadigol, yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus ac yn unigolion iach, hyderus. Rydym yn addysgu'n thematig er mwyn bywiogi'n dysgu ac er mwyn creu profiadau dysgu sydd yn berthnasol ac yn ystyrlon. Caiff ein plant gyfleoedd i gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio sgiliau trwy weithgareddau unigol, pâr neu grŵp mewn cyd-destunau amrywiol ar draws y cwricwlwm. Mae ein cwricwlwm yn cwmpasu profiadau, sgiliau a gwybodaeth yn gyfartal ar draws y 6 Maes Dysgu a Phrofiad, sef

- Celfyddydau mynegiannol
- Iechyd a lles
- Dyniaethau
- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
- Mathemateg a rhifedd
- Gwyddoniaeth a thechnoleg

Mae ein cwricwlwm yn plethu cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol i'r profiadau hynny. Yn unol â'n gwerthoedd cryf, rydym yn rhoi ystyriaeth lawn i hawliau dynol gan sicrhau ein bod yn diwallu gofynion cwricwlaidd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Asesu a Chynnydd
Mae asesu yn rhan o bob profiad dysgu ac addysgu yn Ysgol Hamadryad ac yn cynnwys hunan-asesu, asesu cyfoedion ac adborth athrawon. Mae hyn yn caniatáu i ni lunio darlun holistaidd o gynnydd pob plentyn. Mae ein plant yn cydweithio gyda'u hathrawon i ddeall eu cynnydd ac i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. Mae ein dulliau asesu yn ein galluogi i gefnogi a herio dysgwyr, i fyfyrio ar gynnydd dros amser ac i ddeall cynnydd grwpiau o ddysgwyr. Rydym yn ystyried cynnydd yn y 6 Maes Dysgu a Phrofiad yn erbyn datganiadau o'r hyn sy'n bwysig er mwyn sicrhau cynnydd dysgwyr o bob oed a gallu.

Mae'r ardal tu allan i'r dosbarthiadau yn yr Adran Meithrin i Flwyddyn 2 yn estyniad o'r ystafell ddosbarth, lle ceir nifer o weithgareddau a fydd yn cyfoethogi profiadau ein plant. Erbyn Blwyddyn 1 a 2 mae'r plant yn cael eu hannog i gwblhau tasgau'n annibynnol.

DYSGU AC ADDYSGU

Cymraeg fydd cyfrwng pob gwers yn Adran Meithrin i Flwyddyn 2. Byddwn yn cyflwyno'r Saesneg yn ffurfiol ym mlwyddyn 3 ac yn parhau i ddarparu gwersi Saesneg o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6.

Byddwn yn defnyddio amryw o dechnegau addysgu megis addysgu dosbarth cyfan uniongyrchol, addysgu grwpiau bychain o fewn y dosbarth, ac addysgu unigolion. Bydd cyfle i'r disgyblion ymchwilio, gwrando, trafod, holi a hunanarfarnu.

LLAIS Y PLENTYN

Mae'n bwysig i ni bod llais ein plant yn bwydo gweithdrefnau'r ysgol a'n cynlluniau addysgol. Ar ddechrau pob tymor, byddwn yn rhoi gwybod am gyd-destun gweithgareddau'r cyfnod. Byddwn yn cysylltu â chi ar ddechrau pob tymor yn gofyn i chi drafod y cyd-destun **gyda'ch plentyn** a danfon syniadau am weithgareddau yn ôl i'r ysgol. Mae hyn yn bwysig i ni er mwyn sicrhau bod llais ein plant yn cael ei ystyried wrth gynllunio gweithgareddau'r tymor.

Os byddwch yn mynd ar wyliau neu'n cael dathliad arbennig, cofiwch ddanfon lluniau neu arteffactau i'r ysgol gyda'ch plentyn. Rydym eisiau clywed beth mae eich plentyn yn ei wneud tu allan i oriau ysgol.

DYSGU O ADREF

Gofynnwn am gefnogaeth rhieni a gwarcheidwaid i sicrhau bod y disgyblion yn cwblhau unrhyw dasgau dysgu o adref a roddwn iddynt. Fel arfer, mae'r rhain yn cael eu cwblhau ar See-Saw neu Google Classrooms. Daw pob gweithgaredd â chyfarwyddiadau eglur er mwyn

i'r rhieni a gwarcheidwaid allu cynorthwyo'r disgyblion. Bydd natur y tasgau yn amrywio gan ddibynnu ar oed y plant. Daw wybodaeth ar gychwyn y flwyddyn academaidd am natur tasgau dysgu o adref ar gyfer eich plentyn.

ADDYSG CYDBERTHYNAS A RHYWIOLDEB

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn un o ofynion statudol Cwricwlwm i Gymru i bob dysgwr. Wrth ddarparu cynnwys y cwricwlwm hwn, ein nod yw sicrhau bod pob plentyn yn derbyn cyfleoedd o ansawdd uchel i ddatblygu eu dealltwriaeth o gydberthynas a rhywioldeb. Bydd hynny'n helpu i rymuso plant a phobl ifanc â'r ddealltwriaeth a'r sgiliau mae arnyn nhw eu hangen i wneud dewisiadau diogel, gwybodus yn gyfredol ac yn y dyfodol. Byddwn bob amser yn darparu profiadau dysgu sydd yn addas at oed a datblygiad ein plant, o'r Feithrin i Flwyddyn 6.

CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG

Mae gwerthoedd sylfaenol Ysgol Hamadryad yn graidd i weithgarwch yr ysgol, sy'n cynnwys ein Haddysg Grefyddol a'n Gwasanethau Cydaddoli. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Parch at ein gilydd a thrin pob person fel y dymunwn i ninnau gael ein trin
- Dealltwriaeth a pharch tuag at ein amgylchedd
- Gweithredu'n gymunedol
- Gofalu am eraill sydd mewn angen
- Trin pawb yn gydradd
- Gweithio dros gymdeithas heddychlon.

Byddai nifer yn adnabod y gwerthoedd yma fel rhai sydd yn gyson â gwerthoedd nifer o grefyddau mawr y byd, gan gynnwys Cristnogaeth, Islam, Bwdhaeth, Iddewiaeth a Hindŵaeth.

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn un o ofynion statudol Cwricwlwm i Gymru i bob dysgwr. Byddwn yn ystyried y maes llafur cytunedig a chyhoeddir gan yr awdurdod lleol wrth gynllunio ein maes llafur. Bydd hyn yn ein helpu i lunio cwricwlwm sydd yn cyflawni'r pedwar diben ac yn paratoi dysgwyr i fod yn ddinasyddion cyfrifol a gwybodus mewn byd amrywiol sy'n newid yn gyflym. Bydd disgyblion yn astudio a thrafod amryw o grefyddau gwahanol yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

GWASANAETHAU CYDADDOLI

Byddwn yn cynnal gwasanaeth ar y cyd yn ddyddiol. Bydd y gwasanaethau wedi eu seilio ar egwyddorion Cristnogol ond byddant yn gynhwysol ac yn agored i blant o bob crefydd. Mae'r gofyniad i gynnal gwasanaethau o'r fath yn ofyniad ddeddfwriaethol. Nod ein haddoliad cyhoeddus yw rhoi cyfle i'n plant:

- fyfyrio ar y gwerthoedd ysbrydol a moesol yma
- addoli ac archwilio eu credoau eu hunain

- ymateb a chyfranogi
- datblygu ymdeimlad o ysbryd cymunedol
- hybu ethos a gwerthoedd cyffredin ac atgyfnerthu agweddau cadarnhaol.

Yn ystod y flwyddyn byddwn yn cynnal gwasanaethau teuluol ac mae croeso mawr i rieni a gwarcheidwaid ddod i ymuno â ni.

Mae gan rieni yr hawl i dynnu eu plant allan o'r gwasanaethau. Os dymunwch wneud hynny dylech gysylltu â'r Pennaeth. Os na fydd y disgyblion yn mynychu'r gwasanaethau byddwn yn cynnig gofal bugeiliol ar eu cyfer.

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Trwy gynllunio cwricwlwm gwahaniaethol, sicrhewn bod yr holl ddisgyblion yn cael mynediad at weithgareddau sydd yn addas at eu gallu ac sydd yn caniatau pob plentyn i gyrraedd eu llawn potensial. Mae asesu ac arsywli parhaus yn galluogi'r athrawon i gynllunio gweithgareddau a strategaethau sydd yn addas ar gyfer pob plentyn. Ein bwriad pob tro yw adnabod ein plant yn dda er mwyn gallu cynllunio ar gyfer anghenion pob plentyn, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Weithiau, bydd angen cymorth ychwanegol neu wahanol ar rai plant. Gall hyn fod ar nifer o wahanol ffyrdd, gan gynnwys defnyddio strategaethau penodol, darparu cymorth ychwanegol neu geisio am gyngor gan asiantaethau arbenigol. Bydd staff yr ysgol yn cydweithio'n agos iawn gyda phlant a rhieni wrth gynllunio darpariaeth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn cynnwys rhieni a phlant yn penderfyniadau a wneir. Gwelwn hwn fel broses cytun.

Bydd staff y dosbarth yn gweithio'n agos iawn â chydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sef Mrs Lois John, wrth adnabod anghenion, monitro a chynllunio darpariaeth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol, yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Credwn mai dim ond trwy weithio mewn partneriaeth gyda rhieni a gwarcheidwaid y gall pob disgybl fod ar eu gorau. Mae cydweithrediad rhwng yr ysgol a rhieni a gwarcheidwaid yn holl bwysig er lles a chynnydd y disgyblion. Os oes gan rieni neu warcheidwaid bryderon am eu plant gofynnwn iddynt gysylltu â'r ysgol. Dim ond trwy drafodaeth a chydweithio y gellir datrys problemau. Yn yr un modd, os yw'r ysgol yn poeni am unrhyw ddisgybl byddwn yn cysylltu'n syth â rhieni a gwarcheidwaid.

Er mwyn sicrhau bod rhieni a gwarcheidwaid yn cael digon o amser i drafod unrhyw broblem gyda'r athrawon unigol gofynnwn iddynt ffonio swyddfa'r ysgol yn y lle cyntaf. Gallwn wedyn drefnu amser a dull sy'n gyfleus i bawb er mwyn cynnal trafodaeth effeithiol.

Enghreiffitau o weithio mewn partneriaeth:

Rôl yr Ysgol	Rôl Rhieni a Gwarcheidwaid
• Cyfathrebu trwy lythyron / cylchlythyron yn rheolaidd er mwyn trosglwyddo gwybodaeth	• Edrych ym mag eich plentyn pob nos a cadw llygad agos ar ebyst
• Sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol	• Cysylltu â'r ysgol os ydych yn poeni am hapusrwydd neu ddiogelwch eich plentyn yn yr ysgol/cartref
• Danfon tasgau dysgu o adref yn rheolaidd ac ymateb i waith a dderbynir yn ôl	• Cynnig help i'ch plentyn a sicrhau bod tasgau dysgu o adref yn cael eu cwblhau
• Sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd	• Cysylltu â'r ysgol os ydych yn poeni am gynnydd eich plentyn
• Sicrhau bod pob disgybl yn derbyn annogaeth i wneud ffrindiau	• Gwahodd ffrindiau eich plentyn adref i gael tê neu i chwarae
• Cysylltu â'r rhieni a'r gwarcheidwaid os oes pryder am ddatblygiad cyffredinol disgybl	• Cysylltu â'r ysgol os ydych yn poeni am ddatblygiad cyffredinol eich plentyn
• Gwrando ar bryderon am unrhyw ddisgybl ac ymateb iddynt	• Gwrando ar bryderon eich plentyn ac ymateb iddynt
• Darparu adborth rheolaidd ar les a chynnydd a lles	• Mynychu'r cyfarfodydd a drefnir er mwyn trafod eich plentyn

Byddwn yn cynnal sawl digwyddiad ymgysylltu yn ystod y flwyddyn. Estynnwn groeso cynnes i bawb ac felly gobeithiwn weld cynrychiolaeth o bob teulu—mae'r plant wrth eu boddau yn eich gweld yn eu dosbarthiadau!

CYTUNDEB CARTREF / YSGOL

Pan fydd disgyblion yn ymuno â'r ysgol gofynnwn i'r rhieni/gwarcheidwaid arwyddo cytundeb cartref/ysgol.

ADRODD AR GYNNYDD DISGYBLION

Er mwyn adrodd ar gynnydd, cynhelir cyfarfodydd rhwng athrawon a rhieni / gwarcheidwiad dwywaith yn flynyddol. Yn ystod y nosweithiau bydd cyfle ichi edrych ar waith eich plentyn a'i drafod â'r athrawon. Ar ddiwedd tymor yr Haf bydd rhieni a gwarcheidwaid pob disbybl yn derbyn adroddiad ysgrifenedig.

YMDDYGIAD CADARNHAOL

Credwn mewn datblygu hunanddisgyblaeth ein disgyblion ac er mwyn annog hyn mae holl gymuned yr ysgol yn gweithredu mewn modd adferol. Byddwn yn hyfforddi'r disgyblion o'r

cychwyn cyntaf i ddangos parch ac empathi at eraill, boed yn blant neu'n oedolion. Trwy esiampl yr athrawon byddant yn dysgu bod yn gwrtais ac ystyried teimladau eraill. Byddwn yn dathlu ymddygiad da trwy wobrwyo.

Weithiau bydd ambell ddisgybl yn ei gweld hi'n anodd cadw at ddisgwyliadau'r ysgol. Ar adegau fel hyn, defnyddir dulliau adferol er mwyn datrys problemau a thrwsio unrhyw berthnasau. O bryd i'w gilydd bydd angen cymryd camau disgyblu i'w helpu i adeiladu perthnasau ag eraill.

Os bydd yr ysgol yn poeni am ymddygiad unrhyw ddisgybl byddwn yn cysylltu â rhieni a gwarcheidwaid er mwyn cydweithio i ddatrys y broblem.

CWYNION

Os byddwch yn teimlo'n anhapus ag unrhyw agwedd ar fywyd ysgol eich plentyn gofynnwn ichi gysylltu â'r Pennaeth yn y lle cyntaf. Gan amlaf bydd modd datrys y broblem trwy drafodaeth. Os na fyddwch yn fodlon ar hynny, gallwch ysgrifennu at Gadeirydd y Corff Llywodraethu.

Os bydd y broblem yn dal heb ei datrys, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Sir: Cyfarwyddwr Addysg, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.

CYFLEOEDD CYFARTAL

Credwn fod hawl gan bob unigolyn, beth bynnag fo'i hil, ei gefndir, ei grefydd neu ei anabledd, i dderbyn cyfle cyfartal. Ymfalchïwn ein bod yn ysgol sydd yn croesawu disgyblion, staff a rhieni a gwarcheidwaid o wahanol gefndiroedd cymdeithasol, hil, rhywedd, anabledd, cred, iaith, cyfeiriadedd rhywiol, ac oedran. Rydym yn ymdrechu i greu cymdeithas a chymuned sy'n dathlu amrywiaeth ac sy'n sefyll yn erbyn rhagfarn.

Anabledd

Mae adeilad yr ysgol yn addas ar gyfer derbyn disgyblion a staff ag anableddau corfforol, fel a ganlyn:

- mynediad i'r prif fynedfa yn hawdd ei gyrraedd
- y drysau yn hawdd i'w hagor (dolennau isel)
- toiled i bobl anabl
- coridorau a drysau'r dosbarthiadau yn llydan
- mynediad i'r neuadd yn hawdd
- mynediad i'r iard chwarae ar un lefel
- lifft i gael mynediad i lawr cyntaf yr ysgol

Mynediad i'r Cwricwlwm

Mae cwricwlwm yr ysgol yn eang a chytbwys, ac yn cynnig cyfle i bawb lwyddo. Byddwn yn cynllunio gweithgareddau'r ysgol yn ofalus gan ystyried:

- gallu academaidd pob disgybl

- gallu corfforol pob disgybl
- diddordeb a dawn pob disgybl
- cred pob disgybl
- cefndir cymdeithasol pob disgybl
- cefndir ethnig pob disgybl

MYNEDIAD I'R YSGOL

Cyngor Sir Caerdydd sy'n penderfynu pa ddisgyblion a caiff eu derbyn i'r ysgol, a hynny ar sail ceisiadau ffurfiol gan y rhieni a gwarcheidwaid. Ond yn aml bydd y rhieni a gwarchedwaid yn cysylltu'n uniongyrchol â'r ysgol yn y lle cyntaf. Mae modd trefnu cyfarfod â'r Pennaeth a chael taith o gwmpas yr ysgol. Ar ôl hyn, mae'r ysgol yn cynghori'r rhieni i gysylltu â thîm yr Awdurdod Lleol. Bydd y cais yn cael ei brosesu ac yna fydd yr Awdurdod Lleol yn naill ai cynnig lle neu wrthod lle o fewn yr ysgol. Gweler y llyfryn *Mynediad i Ysgolion – Cyngor Caerdydd* am fanylion pellach.

MYNEDIAD I WYBODAETH

Bydd yr ysgol yn cyhoeddi nifer o ddogfennau perthnasol i'r cwricwlwm ac i weithdrefnau cyffredinol yr ysgol. Gallwch ofyn am gael gweld copi o'r llyfryn *Mynediad i Wybodaeth* yn swyddfa'r ysgol. Mae'r ddogfen hon yn rhestru holl bolisïau cyfredol yr ysgol. Mae croeso i unrhyw un ofyn am gopi o unrhyw bolisi.
Bydd yr ysgol yn gofyn am dâl bychan am lungopïo polisïau.

CYFRANIAD ARIANNOL

Er mwyn cyfoethogi'r cwricwlwm ac ymestyn profiadau'r disgyblion byddwn yn trefnu ymweliadau ac yn gwahodd ymwelwyr i'r ysgol yn achlysurol. Bydd yr ysgol yn gofyn i'r rhieni a gwarcheidwaid am gyfraniad lleiafswm tuag at y costau. Ni fydd yr ysgol yn gwneud elw wrth ofyn am gyfraniad. Lle bo anhawster cyfrannu at y costau ni fydd y disgybl yn cael ei rwystro rhag cymryd rhan yn y gweithgaredd. Pe dymunir gwneud hynny, mae croeso hefyd i rieni a gwarcheidwaid gyfrannu'n ychwanegol at gostau ymweliadau ac ymwelwyr. Bydd pob cyfraniad ychwanegol yn gymorth i eraill sydd yn cael anhawster cyfrannu.

IECHYD A DIOGELWCH

Byddwn yn dilyn polisi iechyd a diogelwch yr ysgol a chanllawiau'r Sir er mwyn sicrhau, o fewn pob rheswm, iechyd a diogelwch pawb sydd ar safle'r ysgol. Sicrheir:

- bod y disgyblion yn cael eu goruchwylio trwy gydol y dydd ag eithrio tasgau annibynnol ym mlynyddoedd 1 a 2, lle bydd disgwyl i blant gwblhau tasgau annibynnol yn yr ardaloedd tu allan lle nad oes goruchwyliaeth uniongyrchol
- bod drysau allanol a gatiau'r ysgol dan glo yn ystod y dydd
- bod ymwelwyr yn mewngofnodi ac yn gwisgo bathodyn ar y safle
- bod ymwelwyr yn cofnodi'r amser y byddant yn ymadael â'r ysgol
- bod dril tân yn cael ei gynnal bob tymor

- bod staff yr ysgol yn derbyn hyfforddiant dril tân bob tymor
- bod offer yr ysgol a'r adeilad mewn cyflwr da.

Bydd staff yn gwneud pob ymdrech i sicrhau diogelwch eiddo personol disgyblion. Gofynnwn i rieni gefnogi'r ysgol i sicrhau diogelwch eiddo personol trwy'r canlynol:

- peidio ag anfon teganau i'r ysgol gyda'r disgyblion
- sicrhau bod pob eitem o ddillad ac eitemau eraill (e.e. poteli a bocsys bwyd) wedi'u labelu yn eglur ag enw'r disgybl
- gofalu nad yw eich plentyn yn dod â ffôn symudol i'r ysgol, ag eithrio'r plant hynaf sydd yn teithio heb oedolion

Ni chaiff y disgyblion ddod â pheli nac offer chwarae i'r ysgol i'w defnyddio yn ystod yr amser egwyl. Mae offer chwarae amrywiol ar gael yn yr ysgol i'w ddefnyddio yn ystod yr amseroedd chwarae.

MODDION A DAMWEINIAU

Bydd yr ysgol yn cymryd cyfrifoldeb am roi moddion i ddisgyblion mewn achosion arbennig – cysylltwch â'r ysgol am ragor o wybodaeth.

Os oes gan ddisgybl gyflwr sydd yn gofyn am feddyginiaeth rheolaidd (e.e. epilepsi, asthma ayb) cysylltwch â'r ysgol er mwyn gwneud trefniadau arbennig.

Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant mewn cymorth cyntaf, ac yn dal tystysgrifau cyfredol. Mewn argyfwng dwys bydd yr ysgol yn cysylltu'n syth am gymorth proffesiynol ac yna'n cysylltu â'r rhieni.

TEITHIO LLESOL

Ein bwriad yw bod pob plentyn yn teithio yn llesol i'r ysgol trwy gerdded, teithio ar feic neu sgŵter neu deithio ar drafnidiaeth cyhoeddus. Lle bo angen defnyddio car i deithio, mae modd parcio ym maes parcio Stryd Havannah am bris hynod rhesymol a cherdded pellter byr i'r ysgol. Gwneir hyn trwy system MiPermit (mae manylion ar wefan yr ysgol). Ni chaniateir parcio ar y strydoedd sydd cyfagos â'r ysgol.

DIOGELU PLANT

Y Pennaeth, Mrs Helen Sharkey, yw Uwch-Berson Dynodedig (UBD) yr ysgol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant. (029 2047 1173). Yn absenoldeb Mrs Helen Sharkey, Mrs Lois John neu Mr Antony Jones fydd yn gyfrifol. (029 2047 1173). Y Llywodraethwr Dynodedig ar gyfer Diogelu Plant yw Ms Ali Lynch.

Bydd staff yr ysgol yn derbyn hyfforddiant blynyddol mewn materion diogelu plant. Pe bai materion o bryder yn codi, bydd staff yn eu cyfeirio at y Pennaeth (Uwch Berson Dynodedig)

neu i'r Dirprwy UBD yn absenoldeb y Pennaeth. Bydd yr ysgol yn cyfeirio at swyddogion diogelu'r Sir lle bo angen cyngor neu gymorth pellach.

Os oes gan riant gonsyrn am unrhyw agwedd o les eu plant, dylent gysylltu â'r ysgol i drafod. Dylid cysylltu â Mrs Sharkey yn syth pe bai pryderon am fater diogelu. Pe bai pryder diogelu yn ymwneud â'r Pennaeth, dylid gysylltu â Dafydd Trystan, Cadeirydd y Llywodraethwyr ar 07966 705890. Mae'r polisi diogelu plant ar gael o swyddfa'r ysgol.